OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 216 (Cy. 53)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *1 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 25B(3)(c) a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 203(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru(**2**) ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

(**1**) 2006 p. 42; gweler adran 206(1) am y diffiniad o "regulations". Mewnosodwyd adran 25B yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("Deddf 2006") gan adran 1(1) o Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 (dccc 5) ("Deddf 2016"). Diwygiwyd adran 203(6) o Ddeddf 2006 gan adran 1(2) o Ddeddf 2016 i ddarparu bod rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 25B(3)(c) o Ddeddf 2006 yn cael eu gwneud yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol. Mewnosodwyd y diffiniad o "nurse staffing level", fel y'i diffinnir yn adran 25B(1)(a) o Ddeddf 2006, yn y tabl o ymadroddion wedi eu diffinio yn adran 207 o'r un Ddeddf gan adran 1(3) o Ddeddf 2016.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 203(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).